# Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) Protocol

*Disgrifio'n effeithiol ymrwymiad y sefydliad i arferion Rhyddid Gwybodaeth*

Statws
Fersiwn Rhif
1: Terfynol

Awdur: Tim Knifton
Cymeradwywr: Peter Stephenson

Dyddiad: 18/1/2018Dyddiad Adolygu Nesaf: 18/1/2021

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
4-5 Cwrt Charnwood,
Heol Billingsley,
Parc Nantgarw,
Caerdydd, CF15 7QZ

Rhif Ffôn: 01443 848569
www.nwssp.wales.nhs.uk

# PROTOCOL DEDDF RHYDDID GWYBODAETH

## Cynnwys

1. Hanes y Ddogfen
2. Datganiad Protocol
3. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
4. Diben
5. Cwmpas y Protocol
6. Nodau'r Protocol
7. Deddfwriaeth/Safonau
8. Cyfrifoldebau
9. Y Canllawiau sydd Ar Gael
10. Cynllun Cyhoeddi Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
11. Ceisiadau Penodol am Wybodaeth
12. Rheoliadau Gwybodaeth am yr Amgylchedd
13.Codi Tâl am Geisiadau Deddf Rhyddid
Gwybodaeth 14. Eithriadau o dan y Ddeddf
15. Cwynion 16.
Codau Ymarfer
    15.1 Adran 45 o'r Cod Ymarfer
    15.2 Adran 46 o'r Cod Ymarfer
17. Hawlfraint
18.
Cydraddold
eb 19.
Cysylltiadau

Rhagor o Wybodaeth

Atodiad 1.....Lle mae'r costau'n uwch na'r terfyn priodol
Atodiad 2…..Deddf Rhyddid Gwybodaeth - Eithriadau

## Atodiad 3.....Cyfeiriadau

# 1. HANES Y DDOGFEN

## 1.1 Hanes Adolygu

| Dyddiad | Fersiwn | Awdur | Crynodeb Adolygu |
|---|---|---|---|
| 18/1/2018 | V0.1 | Tim Knifton | Drafft cychwynnol i adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data |
| 26/4/2018 | F1 | Peter Stephenson | Cymeradwywyd |
| 29/4/2018 | F1 | Tim Knifton | Wedi'i fformatio fel fersiwn derfynol |

## 1.2 Adolygwyr

Mae angen yr adolygiadau canlynol ar y ddogfen hon:

| Dyddiad | Fersiwn | Enw | Swydd |
|---|---|---|---|
| 18/1/2021 | TERFYN OL | Grwp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth | Grŵp Llywio Rheoli Gwybodaeth i'w hadolygu |

## 1.3 Awdurdodiad

Mae llofnodi'r ddogfen hon yn dangos eich bod yn derbyn ei chynnwys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw’r Awdur: | Tim Knifton | | |
| Rôl: | Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth | | |
| Llofnod: | | Dyddiad: | 29 Ebrill 2019 |
| Enw’r Cymeradwywr: | Peter Stephenson | | |
| Rôl: | Pennaeth Cyllid a Datblygu Busnes | | |
| Llofnod: | | Dyddiad: | 26 Ebrill 2019 |

## 1.4 Lleoliad y Ddogfen

| Math | Lleoliad |
|---|---|
| Electronig | Ffolderi Llywodraethu Gwybodaeth PCGC |
| Copi Caled | Gyda Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC |

## CRYNODEB GWEITHREDOL
## Protocol Rhyddid Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| **Trosolwg:** | Mae'r Protocol Rhyddid Gwybodaeth yn nodi'r meysydd cyfrifoldeb allweddol ac yn cadarnhau ymrwymiad parhaus Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) i sicrhau didwylledd, tryloywder a chydymffurfiaeth o dan y ddeddfwriaeth gyfredol, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a chodau ymarfer statudol cysylltiedig. |
| | |
| **At bwy mae'r Protocol wedi'i fwriadu?** | Pob un o weithwyr PCGC (gan gynnwys deiliaid contractau anrhydeddus a gwirfoddolwyr), yr Uwch Dîm Rheoli, Uwch Berchnogion Risg Gwybodaeth a Pherchnogion Asedau Gwybodaeth, gan gynnwys Cyfarwyddiaethau ac Adrannau priodol o dan y sefydliad, gan gynnwys unrhyw un sydd dan ei reolaeth. |
| | |
| **Y Negeseuon Allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y Protocol:** | Mae Protocol Rhyddid Gwybodaeth PCGC yn nodi'r meysydd cyfrifoldeb allweddol ac yn cadarnhau ymrwymiad parhaus y sefydliad i sicrhau didwylledd, tryloywder a chydymffurfiad o dan y ddeddfwriaeth gyfredol, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a chodau ymarfer statudol cysylltiedig.<br><br>Mae'r protocol hefyd yn cydnabod amrywiaeth y Cyfarwyddiaethau a'r Adrannau dan ei reolaeth a dyma brif negeseuon y Protocol:<br><br>**Cyfrifoldebau** - Mae PCGC yn cydnabod ei chyfrifoldeb corfforaethol o dan y Ddeddf i sicrhau hawl gyffredinol i gael mynediad at wybodaeth a gedwir.<br><br>**Cyhoeddi** - Bydd PCGC yn cymryd camau cadarnhaol i gyhoeddi gwybodaeth sefydliadol yn rhagweithiol.<br><br>**Y broses adolygu** - Adolygiadau i'w cynnal yn unol â'r broses sydd yn y Protocol hwn.<br><br>**Pwyntiau Cyswllt Allweddol** - Dylid rhoi gwybod i staff am y pwyntiau cyswllt allweddol yn y sefydliad, ei gyfarwyddiaethau a'r adrannau sydd o dan ei reolaeth. |
| | |

**SYLWCH MAI CRYNODEB O'R PROTOCOL YN UNIG YW HWN A DYLID EI DDARLLEN AR Y CYD Â'R DDOGFEN LAWN GANLYNOL**

## 2. Datganiad Protocol

Mae Protocol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn nodi'r meysydd cyfrifoldeb allweddol ac yn cadarnhau ymrwymiad PCGC i barhau i weithredu’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a chydymffurfio â'r codau ymarfer perthnasol.

Mae bod yn agored ac yn dryloyw yn bwysig i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac mae’n croesawu’r hawliau o ran mynediad at wybodaeth y mae’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) yn eu darparu. Felly, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ceisio creu amgylchedd agored a, drwy sicrhau mynediad gwell at wybodaeth am y sefydliad, bydd yn hwyluso datblygu amgylchedd o’r fath.

Mae'r Protocol hwn yn nodi bwriad lefel uchel PCGC ac yn cydnabod amrywiaeth y cyfarwyddiaethau a'r adrannau dan ei reolaeth.

## 3. Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a oedd yn cynnwys asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol penderfyniadau, polisïau neu wasanaethau ar bobl o ran oedran, anabledd, cydraddoldeb rhywiol a hiliol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'n ein helpu i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu polisi neu wasanaeth newydd neu pan fyddwn yn newid polisi neu wasanaeth cyfredol.

## 4. Diben

Pwrpas y protocol hwn yw sicrhau y cedwir at ddarpariaethau’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) (y cyfeirir ati yma fel “y Ddeddf”) ac yn benodol bod:

- Llawer iawn o wybodaeth a gyhoeddir yn rheolaidd am PCGC ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn trwy'r wefan a'i Chynllun Cyhoeddi Enghreifftiol (MPS);
- Gwybodaeth arall nad yw wedi’i chynnwys ar wefan PCGC ar gael yn rhwydd ar gais a bod ceisiadau o’r fath am wybodaeth yn cael eu trin mewn modd amserol; a
- Phan fo'r wybodaeth y gofynnir amdani wedi'i chynnwys gan eithriad peidio â datgelu budd y cyhoedd, bod y sefydliad yn ystyried y prawf budd y cyhoedd yn ofalus fel y'i diffinnir gan y Ddeddf.

## 5. Cwmpas y Protocol

Mae'r Protocol hwn yn berthnasol i'r holl wybodaeth sydd gan gyfarwyddiaethau ac adrannau PCGC, ni waeth sut y cafodd ei chreu neu ei derbyn. Mae'n berthnasol ni waeth ym mha gyfryngau y mae'r wybodaeth yn cael ei storio, p'un a yw'r wybodaeth yn gyfredol neu wedi'i harchifo a'i chadw ar bapur neu'n electronig.

Ysgrifennwyd y Protocol hwn ar y cyd â pholisïau a gweithdrefnau Llywodraethu Gwybodaeth Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, sy'n anelu at ddarparu arweiniad i holl weithwyr PCGC.

## 6. Nodau'r Protocol

Nodau'r Protocol yw manylu ar sut mae PCGC yn cyflawni ei rhwymedigaethau cyfreithiol a'i hymrwymiad parhaus o dan y Ddeddf i sicrhau mynediad amserol at wybodaeth y mae'r sefydliad, ei gyfarwyddiaethau a'i adrannau yn ei chadw, er mwyn hyrwyddo didwylledd a sicrhau gwell tryloywder wrth wneud penderfyniadau, ac adeiladu ymddiriedaeth a hyder cyhoeddus.

Caiff y nodau hyn eu cydbwyso â'r angen i sicrhau cyfrinachedd rhai darnau o wybodaeth y mae PCGC, ei chyfarwyddiaethau a'i hadrannau'n eu cadw am feysydd fel preifatrwydd personol, sensitifrwydd masnachol a lle na fyddai datgelu o fudd i'r cyhoedd.

Nod y Protocol hefyd yw rhoi fframwaith i holl weithwyr PCGC i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw gais am wybodaeth a gânt yn unol â'r Ddeddf ac ar y cyd â'r Protocol hwn.

## 7. Deddfwriaeth/Safonau

Bydd PCGC a'i staff yn cydymffurfio â'r holl ofynion presennol a gofynion newydd, rhai deddfwriaethol a'r rhai a ddarperir fel arweiniad gan Lywodraeth Cymru (LlC), yr Adran Iechyd, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a chyrff proffesiynol eraill.

Mae'r Protocol hwn wedi'i ysgrifennu yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r Ddeddf, yn ogystal â rhannau allweddol o ganllawiau a phrotocolau a gweithdrefnau cyfredol PCGC a rhai adrannol/sefydliadol cysylltiedig lle maent yn gorgyffwrdd â'r Protocol hwn. Dylid ystyried y Protocol hwn ar y cyd ag unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ac ni ddylid ei ddarllen ar ei ben ei hun.

Mae PCGC yn cydnabod y gall gweithdrefnau penodol o fewn is-adrannau a

sefydliadau cysylltiedig amrywio. Fodd bynnag, bydd y gofyniad i gynnal darpariaeth y Ddeddf a'r angen i sicrhau mynediad amserol at wybodaeth wrth hyrwyddo didwylledd a thryloywder bob amser yn aros yr un fath.

## 8. Cyfrifoldebau

Mae PCGC yn cydnabod ei gyfrifoldeb corfforaethol o dan y Ddeddf i sicrhau hawl gyffredinol i gael mynediad at wybodaeth a gedwir. Yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y Protocol hwn yw Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC.

Mae’r adrannau a’r sefydliadau cysylltiedig sy'n dod o dan gylch gwaith PCGC yn gyfrifol am hyrwyddo cydymffurfiad â'r Protocol hwn mewn ffordd sy'n sicrhau y gellir cael gwybodaeth mewn modd priodol ac amserol.

Rhaid i bob aelod o staff PCGC (gan gynnwys staff asiantaeth a banc, contractwyr, deiliaid contract anrhydeddus a gwirfoddolwyr) gydymffurfio â’r Protocol hwn ac mae cyfrifoldeb arnynt dros sicrhau bod unrhyw gais am wybodaeth y maent yn ei derbyn a/neu y gofynnir iddynt gynorthwyo ag ef yn cael ei drin mewn modd amserol yn unol â'r Ddeddf ac yn unol â'r Protocol hwn; gall methu â chydymffurfio arwain at weithdrefnau disgyblu.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, bydd darpariaeth hyfforddiant yng nghyfarwyddiaethau ac adrannau PCGC yn rhoi sesiwn friffio a hyfforddiant byr i aelodau staff ar y Ddeddf a'i gweithdrefnau fel rhan o sesiwn hyfforddi Llywodraethu Gwybodaeth ehangach. Bydd yn rhoi arweiniad ar bwy sy’n gyfrifol am geisiadau am wybodaeth a’r dyletswyddau cyfreithiol sydd gan y sefydliad.

## 9. Y Canllawiau sydd Ar Gael

Dylai canllawiau ar y gweithdrefnau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r Protocol hwn fod ar gael i holl gyfarwyddiaethau ac adrannau PCGC, gan gynnwys ar ei thudalennau gwe. Mae dolenni i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) hefyd yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr a dylid sôn amdanynt ar bob cyfle.

## 10. Cynllun Cyhoeddi Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Yn ôl y Ddeddf, mae dyletswydd ar PCGC i fabwysiadu a chynnal cynllun cyhoeddi. Mae cynllun cyhoeddi yn gosod cyfrifoldeb ar PCGC i gyhoeddi saith math (dosbarth) o wybodaeth i'r cyhoedd yn rheolaidd ac yn rhagweithiol ac i sicrhau y gellir nodi a chael mynediad at yr wybodaeth hon yn hawdd.
Y saith dosbarth hyn yw:

1. Pwy ydym ni a beth rydym ni’n ei wneud
2. Beth rydym ni’n ei wario a sut rydym ni’n ei wario
3. Beth yw ein blaenoriaethau nawr a pha mor llwyddiannus ydym ni
4. Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

5. Ein polisïau a'n gweithdrefnau
6. Rhestrau a Chofrestrau

7. Y gwasanaethau rydym yn eu cynnig

## 11. Ceisiadau Penodol am Wybodaeth

Efallai y bydd modd cael mynediad at wybodaeth nad yw eisoes ar gael ar wefan PCGC na thrwy ei chynllun cyhoeddi trwy gais penodol am wybodaeth.

Lle mae gan aelodau'r cyhoedd hawl gyffredinol i gael mynediad at wybodaeth ond na allant gael mynediad at unrhyw gyfrwng electronig megis e-byst neu'r rhyngrwyd, rhaid ystyried dulliau amgen o ddarparu gwybodaeth bob amser.

Gall pawb ledled y byd arfer yr hawl i wybodaeth a gedwir gan PCGC. Bydd Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC yn delio â cheisiadau penodol am wybodaeth nad ydynt wedi'u rhestru yn y cynllun cyhoeddi, gan gysylltu’n uniongyrchol ag arweinwyr priodol mewn gwahanol gyfarwyddiaethau ac adrannau'r sefydliad, yn dibynnu ar ofynion neu ffocws y cais hwnnw.

O dan y Ddeddf, rhaid i unrhyw gais am wybodaeth gael ei wneud ar ffurf barhaol (h.y. yn ysgrifenedig - naill ai trwy neges destun, llythyr, ffacs, sianeli cyfryngau cymdeithasol neu drwy e-bost) a gellir codi tâl am ddelio â chais.

Rhaid i PCGC, is-adrannau priodol a sefydliadau cysylltiedig ymateb i bob cais am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith gydag unrhyw ymateb, gan gynnwys yr angen i gadarnhau neu wadu a yw'r wybodaeth wedi’i chadw. Yn ogystal â hyn, yng ngoleuni'r angen ar adegau i ofyn am eglurhad gan yr ymgeisydd er mwyn nodi a dod o hyd i'r wybodaeth, o ganlyniad, ni fydd rhaid cadw at yr amserlen hon a dim ond ar ôl derbyn yr eglurhad angenrheidiol y bydd yn ailgychwyn.

Yn ogystal, pe bai hysbysiad ffioedd yn cael ei roi i'r ymgeisydd, gellid ymestyn y cyfnod o 20 diwrnod gwaith hyd at gyfnod penodol resymol, a dim ond ar ôl i'r ffi gael ei thalu y byddai’n ailgychwyn. Gellir neilltuo rhagor o amser i'r cais os yw eithriad yn gymwys gan PCGC (gweler adran 11) i'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani neu ran ohoni. Yn y sefyllfa hon, dylid hysbysu'r sawl sy’n gwneud cais ar unwaith o unrhyw estyniad o ran amser sydd i'w hychwanegu.

I gael cyngor pellach ar gymhwyso'r Ddeddf, ei darpariaethau cydymffurfio o ran amser ac, o bosibl, i ddefnyddio unrhyw un o eithriadau'r Ddeddf, cysylltwch â Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC.

## 12. Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, sydd yn gyffredinol yn ymwneud â cheisiadau ynghylch pynciau megis materion amgylcheddol (aer, dŵr, tir, ac ati), sŵn, gweithgareddau sy'n effeithio ar yr amgylchedd, a rhai agweddau ar iechyd a diogelwch, hefyd yn caniatáu i geisiadau gael eu gwneud ar lafar.

Lle bo angen, dylai is-adrannau a sefydliadau cysylltiedig ymgysylltu â Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC i gael cyngor ac arweiniad pellach.

## 13. Codi Tâl am Geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Wrth gynnal diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw, ni fydd PCGC a'i chyfarwyddiaethau a'i hadrannau priodol yn codi tâl am ddarparu gwybodaeth a ddarperir o ganlyniad i gais. Fodd bynnag, os amcangyfrifir bod y cais am wybodaeth yn fwy na'r terfyn ffioedd priodol fel y'i nodir o dan adran 12 o'r Ddeddf, cydnabyddir nad yw'n ofynnol i'r sefydliad gydymffurfio â'r cais am wybodaeth.

Mewn achosion pan fydd yr wybodaeth wedi'i heithrio oherwydd bod y terfyn ffioedd priodol wedi'i fodloni, yna lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn unol â'r ddyletswydd i ddarparu cyngor a chymorth sydd wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf, bydd PCGC, ei chyfarwyddiaethau a'i hadrannau, yn gweithio gyda'r ymgeisydd i geisio lleihau faint o waith sy’n gysylltiedig â hyn fel y gellir darparu rhywfaint o'r wybodaeth.

Mewn rhai amgylchiadau, gellir cynnig yr opsiwn i'r ymgeisydd dalu am yr wybodaeth. Yn yr achos hwn, byddai'n rhaid i'r ymgeisydd dalu'r gost lawn.

Yn ogystal â hyn ac o dan y Ddeddf, gellir codi taliadau i gwmpasu mwy o dasgau gweinyddol fel llungopïo/cyfieithu dogfennau, ac ati. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, gellir hepgor codi tâl ar gyfer treuliau o'r fath; fodd bynnag, trwy'r swyddogaeth Gwasanaethau Corfforaethol, mae PCGC yn cadw'r hawl i godi’r taliadau hyn, yn enwedig mewn achosion eithriadol lle mae'r cais yn gofyn am swm o lungopïo sy'n afrealistig, neu ymdrech sylweddol i gyfieithu neu i drosglwyddo dogfennau i fformatau eraill. Os codir tâl ar gyfer treuliau, cânt eu cadw i lefel resymol.

Mae **Atodiad 1** yn darparu gwybodaeth am y rheolau sydd ar waith ar gyfer codi tâl am ddarparu gwybodaeth o dan y Ddeddf ac mae cyngor pellach ar gael trwy Reolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC.

## 14. Eithriadau o dan y Ddeddf

Mae'n ofynnol i PCGC, ei chyfarwyddiaethau a'i hadrannau ddatgelu'r holl wybodaeth mewn ymateb i gais oni bai bod eithriad sydd wedi'i gynnwys yn y Ddeddf yn berthnasol. Mae gan y Ddeddf nifer o eithriadau a allai sicrhau na ddatgelir yr wybodaeth.

Yn ogystal â hyn, cydnabyddir hefyd y gall datgelu gwybodaeth effeithio ar hawliau cyfreithiol trydydd parti (h.y lle mae gwybodaeth yn ddarostyngedig i ddyletswydd hyder cyfraith gyffredin, yr effeithiau ar bartner diwydiannol y mae PCGC o dan gontract ag ef (er enghraifft, cwmni fferyllol), ac ati). Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd angen ymgysylltu â'r trydydd partïon hyn i ofyn am eu barn ar unrhyw wybodaeth sy’n cael ei rhyddhau.

Fodd bynnag, PCGC, ei chyfarwyddiaethau neu ei hadrannau sy'n gyfrifol am unrhyw benderfyniad i ryddhau gwybodaeth neu beidio, a lle bo angen, cymhwyso eithriad o dan y Ddeddf wedi hynny. Ynddo'i hun, nid yw’r penderfyniad gan drydydd parti i wrthod cydsynio i ddatgelu gwybodaeth yn golygu y dylid dal gwybodaeth yn ôl.

Pe bai’n cael ei benderfynu y gallai’r wybodaeth a gedwir gael ei hystyried yn wybodaeth sydd wedi’i heithrio o dan y Ddeddf ac yn gofyn am yr angen i ystyried y penderfyniad i beidio â’i datgelu a chyhoeddi hysbysiad gwrthod o bosibl, rhaid i Reolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC ac arweinwyr sefydliadol priodol fod yn rhan o’r broses hon.

Mae **Atodiad 2** yn cynnwys rhestr lawn o'r holl eithriadau sy’n bodoli o dan y Ddeddf.

## 15. Cwynion

Mae Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC yn gyfrifol am gydlynu unrhyw gwynion neu geisiadau am adolygiad a dderbynnir mewn perthynas â'r Protocol hwn.

Er mwyn symud ymlaen a sicrhau nad oes unrhyw oedi wrth drin unrhyw gŵyn neu gais am adolygiad mewnol, dylid cadw at y broses ganlynol:

- Yn y lle cyntaf, dylai cwynion neu geisiadau am adolygiad gael eu cyfeirio at PCGC wedi'u marcio fel cais am adolygiad. Cydnabyddir y gŵyn ar unwaith a gwneir pob ymdrech resymol i gynnig ateb mwy cynhwysfawr yn unol â chanllawiau Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a gweithdrefnau adolygu Rhyddid Gwybodaeth lleol.

- Yna bydd y cais am adolygiad yn cael ei anfon ymlaen at barti niwtral

nad yw'n gysylltiedig â PCGC (mae enghreifftiau blaenorol yn cynnwys defnyddio Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)) ac ymdrinnir â’r cais yn unol â chanllawiau swyddogol.

Bydd hyn yn cynnwys manylion y cais; y penderfyniad a wnaed, a bydd yn arwain at farn annibynnol a fyddai'n ystyried a oedd y penderfyniad gwreiddiol yn gywir neu a oes argymhellion.

- Yna byddai ateb yn seiliedig ar y canlyniad yn cael ei roi i'r ymgeisydd, gan gynnwys y penderfyniad a wnaed ac unrhyw wybodaeth a allai fod wedi gorfod cael ei darparu o ganlyniad i'r penderfyniad cadarnhaol.

- Os nad yw'r ymgeisydd yn fodlon â'r ateb yn dilyn yr adolygiad, dylai rhoi gwybod i Reolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC cyn pen 21 diwrnod calendr. Os yw ymgeiswyr yn anfodlon â chanlyniad adolygiad mewnol PCGC, yna gallant ofyn am adolygiad annibynnol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Dylid gwneud ceisiadau am adolygiad gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn ysgrifenedig i un o'r cyfeiriadau canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth –
CymruAil Lawr
Tŷ Churchill,
Ffordd Churchill,
Caerdydd, CF10
2HH

Tel: 029 2067 8400
Ffacs: 029 2067 8399
E-bost: wales@ico.gsi.gov.uk

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Prif Swyddfa
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

Tel: 01625 545700
Fax: 01625 545510

## 16. Codau Ymarfer

Mae'r Ddeddf yn gosod darpariaethau i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi codau ymarfer y dylai PCGC gadw atynt. Mae manylion y codau ymarfer cymwys isod:

## 16.1 Adran 45 o’r Cod Ymarfer

Mae Adran 45 o’r cod ymarfer yn nodi prosesau a argymhellir, y dylai awdurdodau cyhoeddus eu dilyn wrth ddelio â cheisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf. Mae'n rhoi arweiniad clir sy'n cynnwys darparu cyngor a chymorth i ymgeiswyr, sut i drosglwyddo ceisiadau i awdurdodau cyhoeddus eraill, ymgynghori â thrydydd partïon, sut i ddefnyddio cymalau cyfrinachedd mewn contractau a darpariaeth gweithdrefnau cwyno mewnol.

## 16.2 Adran 46 o’r Cod Ymarfer

Mae Adran 46 o’r cod ymarfer yn nodi prosesau a argymhellir, y dylai awdurdodau cyhoeddus eu mabwysiadu mewn perthynas â chreu, storio a rheoli cofnodion, yn ogystal â diwedd oes a dinistrio'r cofnodion hyn. Mae hefyd yn disgrifio'r trefniadau y dylai cyrff cofnodion cyhoeddus eu dilyn wrth adolygu cofnodion cyhoeddus a'u trosglwyddo i'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus (PRO) neu i fannau a drefnwyd ymlaen llaw i’w harchifo.

## 17. Hawlfraint

Mae gwybodaeth a ddarperir gan PCGC, ei chyfarwyddiaethau a'i hadrannau mewn ymateb i gais o dan y Ddeddf yn parhau i fod dan hawlfraint a dim ond at ddefnydd personol yr ymgeisydd y gellir defnyddio'r wybodaeth hon neu at ddefnydd penodol arall a ganiateir o dan y Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau (1988).

Os yw ymgeisydd yn dymuno defnyddio gwybodaeth a ddarperir at ddibenion masnachol (gan gynnwys gwerthu'r wybodaeth i drydydd parti) rhaid iddo/iddi ofyn am ganiatâd ysgrifenedig gan PCGC trwy'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth neu'r Gwasanaethau Corfforaethol o dan y gyfarwyddeb ar 'Reoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2005'. [dolen]

## 18. Cydraddoldeb

Yn unol â Phrotocol Cydraddoldeb PCGC, ni fydd y Protocol hwn yn gwahaniaethu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar sail rhywedd, hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, crefydd neu gred, oedran, aelodaeth undeb, anabledd, statws gofalwr, cefndir troseddol neu unrhyw nodwedd bersonol arall.

## 19. Cysylltiadau

I gael cyngor a/neu gymorth pellach ar sut i sicrhau bod unigolion, cyfarwyddiaeth neu adran yn cydymffurfio â'r Ddeddf neu i gael manylion swyddog arweiniol, yna cysylltwch â Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC:

**Tim Knifton**
**Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth**
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y
Goron,
Caerdydd,
CF14 3UZ

Rhif Ffôn: 02920 902272

## 20. Rhagor o wybodaeth

Dylid darllen y Protocol hwn ar y cyd â'r protocolau PCGC canlynol:

- Protocol Llywodraethu Gwybodaeth
- Protocol Diogelu Data a Chyfrinachedd
- Protocol Rheoli Cofnodion
- Canllawiau Rhyddid Gwybodaeth ynghylch Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

## Atodiad 1

### Pan fydd costau'n uwch na'r terfyn priodol

Wrth benderfynu a yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn fwy na'r terfyn ffioedd priodol ai peidio, o dan y Ddeddf, ni chaniateir i PCGC a/neu ei chyfarwyddiaethau a'i hadrannau gynnwys y gweithgareddau canlynol yn ei hamcangyfrif:

- penderfynu a yw'r wybodaeth yn cael ei chadw;
- lleoliad yr wybodaeth;
- adfer yr wybodaeth; a
- chasglu'r wybodaeth o ddogfen sy'n ei chynnwys.

### Cyfrifo costau'r gweithgareddau

£25 yw'r gyfradd safonol fesul awr; y terfyn yw £450 sy'n cyfateb i 18 awr o amser staff, y mae'n rhaid i PCGC a/neu ei sefydliadau cysylltiedig ei ddefnyddio i gyfrifo costau staff wrth ymateb i geisiadau.

Ni ellir ystyried amser staff a dreulir yn ail-olygu gwybodaeth sydd wedi'i heithrio os ymgymerir ag amcangyfrif cychwynnol i weld a eir y tu hwnt i'r terfyn priodol.

### Hysbysiadau Ffioedd

Fel mater o arfer da, os yw PCGC a / neu ei sefydliadau cysylltiedig yn cynnig darparu'r wybodaeth am ffi, yna dylid rhoi hysbysiad ffioedd i'r ymgeisydd. Nid oes unrhyw ofyniad statudol i wneud hyn oherwydd nad oes unrhyw rwymedigaeth ar y sefydliad i gydymffurfio o dan adran 12 o'r Ddeddf.
Fodd bynnag, argymhellir hyn gan y byddai hyn yn hysbysu'r ymgeisydd bod ganddo/ganddi'r opsiwn i dderbyn gwybodaeth ar ôl talu ffi angenrheidiol.
Dylid rhoi hysbysiad ffioedd cyn gynted â phosibl neu o leiaf o fewn 20 diwrnod gwaith.

### Rhwymedigaethau statudol i ddarparu Gwybodaeth

Ni ellir codi ffi lle mae rhwymedigaeth statudol i ddarparu gwybodaeth mewn fformat penodol, megis yn yr iaith Gymraeg (Deddf yr Iaith Gymraeg 1993) neu mewn Braille, print bras neu ar dâp sain i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl (Deddf Cydraddoldeb 2010). Fodd bynnag, codir tâl er mwyn darparu gwybodaeth trwy'r dull cyfathrebu a ffefrir.

## Talu

Pe na bai PCGC a/neu ei sefydliadau cysylltiedig yn derbyn taliad cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi hysbysiad ffioedd, byddai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystyried nad oes rheidrwydd ar y sefydliad i ymateb i'r cais mwyach. Mae hefyd yn ddefnyddiol sôn am y dyddiad cau hwn yn yr hysbysiad ffioedd.

## Atodiad 2

## Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 - Eithriadau

### Eithriadau Llwyr

Adran 21: Gwybodaeth sy'n hygyrch trwy ddulliau eraill

Adran 23: Diogelwch Cenedlaethol - Gwybodaeth a ddarperir gan neu'n ymwneud â chyrff sy'n delio â materion diogelwch (mae tystysgrif wedi'i llofnodi gan Weinidog y Goron yn brawf pendant bod cyfiawnhad dros yr eithriad. Mae mecanwaith apelio ar wahân yn erbyn tystysgrifau o'r fath)

Adran 32: Cofnodion Llys

Adran 34: Braint Seneddol - mae tystysgrif wedi'i llofnodi gan Lefarydd y Tŷ, mewn perthynas â Thŷ'r Cyffredin, neu gan Glerc y Senedd, mewn perthynas â Thŷ'r Arglwyddi yn brawf pendant bod cyfiawnhad dros yr eithriad.

Adran 36: Cynnal Materion Cyhoeddus yn Effeithiol - i'r graddau y mae'n ymwneud â gwybodaeth a gedwir gan Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi

Adran 40: Gwybodaeth Bersonol - lle mai'r ymgeisydd yw testun yr wybodaeth. Mae gan yr ymgeisydd yr hawl eisoes i 'fynediad pwnc' o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data; lle mae'r wybodaeth yn ymwneud â thrydydd parti a byddai ei datgelu yn torri un o'r egwyddorion

Adran 41: Gwybodaeth a ddarperir 'yn Gyfrinachol'

Adran 44: Gwaharddiadau ar ddatgelu - pan fo datgeliad yn cael ei atal gan ddeddfiad neu lle byddai'n gyfystyr â dirmyg llys.

### Eithriadau Cymwysedig

Adran 22: Gwybodaeth i'w Chyhoeddi yn y Dyfodol

Adran 24: Diogelwch cenedlaethol (ac eithrio gwybodaeth a ddarperir gan sefydliadau diogelwch a enwir neu'n ymwneud â hwy, lle nad yw'r ddyletswydd i ystyried datgelu er budd y cyhoedd yn berthnasol)

Adran 26: Amddiffyn

Adran 27: Cysylltiadau rhyngwladol

Adran 28: Cysylltiadau yn y Deyrnas Unedig

Adran 29: Buddiannau Economaidd y DU

Adran 30: Ymchwiliadau a Thrafodion a Gynhaliwyd gan Awdurdodau

Cyhoeddus Adran 31: Gorfodi'r Gyfraith

Adran 33: Swyddogaethau Archwilio

Adran 35: Llunio Protocol y llywodraeth a Chyfathrebu Gweinidogol

Adran 36: Rhagfarnu cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol (ac eithrio gwybodaeth a gedwir gan Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi)

Adran 37: Cyfathrebu â'i Mawrhydi, y Teulu Brenhinol neu anrhydeddau cysylltiedig

Adran 38: Iechyd a Diogelwch

Adran 39: Gwybodaeth Amgylcheddol - oherwydd y gellir cael mynediad at yr wybodaeth hon trwy'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Adran 42: Braint Proffesiynol Cyfreithiol

Adran 43: Buddiannau Masnachol - lle mae PCGC, ei his-adrannau a/neu sefydliadau cysylltiedig yn credu ei bod yn well o ran budd y cyhoedd ddal yr wybodaeth yn ôl yn hytrach na'i rhyddhau, rhaid i'r awdurdod hysbysu'r ymgeisydd o'i resymau, oni bai y byddai gwneud hynny'n golygu rhyddhau'r wybodaeth sydd wedi'i heithrio.

## Atodiad 3 -

### Cyfeiriadau

Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus -

http://www.opsi.gov.uk Swyddfa'r Comisiynydd

Gwybodaeth - http://www.ico.org.uk/

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder - http://www.justice.gov.uk/information-

access-rights Yr Archifau Cenedlaethol -

http://www.nationalarchives.gov.uk

Adran Iechyd - http://www.dh.gov.uk